Cylchlythyr Drafft gan Lywodraeth Cymru

CYNLLUNIO AR GYFER SAFLEOEDD SIPSIWN, TEITHWYR A SIEWMYN

CYFLWYNIAD

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau wedi'u diweddaru ynghylch yr agweddau ar adnabod safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymwneud â chynllunio. Mae hefyd yn nodi sut y gall awdurdodau cynllunio lleol a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyrraedd y nod yma. Mae'n disodli cyngor sydd wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr 30/2007 "*Cynllunio ar gyfer safleoedd carafanau sipsiwn a theithwyr*", Cylchlythyr 78/91 *"Perfformwyr Teithiol"* a Chylchlythyr 76/94 *"Y polisi ar safleoedd sipsiwn a gwersylla heb awdurdod"* sydd drwy hyn yn cael eu canslo.

DIFFINIAD

2. Mae'r diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' at ddibenion y Cylchlythyr hwn wedi'i gynnwys yn adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Ystyr Sipsiwn a Theithwyr yw:

   (a) Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys –

   (i) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a
   (ii) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio), a

   (b) Unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.

3. Bwriad y diffiniad uchod yw sicrhau bod Sipsiwn Romani ethnig a Theithwyr Gwyddelig yn cael eu cynnwys. Nid oes angen i aelodau o'r cymunedau hyn ddangos ffordd nomadig barhaus o fyw o anghenraid i gael eu hystyried yn Sipsiwn neu Deithwyr.

4. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys Siewmyn Teithiol, yn ogystal â'r bobl o unrhyw grŵp ethnig sy'n arfer ffordd nomadig o fyw. Gallai Teithwyr Newydd gael eu cynnwys gan y diffiniad hefyd os ydynt yn gallu dangos traddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartrefi symudol.

5. Pobl fusnes hunangyflogedig sy'n teithio ar hyd a lled y wlad yn cynnal ffeiriau, yn ystod misoedd yr haf yn bennaf, yw Siewmyn Teithiol. Er bod eu gwaith yn beripatetig ei natur, mae ar Siewmyn Teithiol angen safleoedd parhaol serch hynny i storio eu hoffer ac at ddibenion preswyl. Mae safleoedd o'r fath yn aml yn cael eu galw'n iardiau neu'n aeafleoedd gan Siewmyn eu hunain. Serch hynny, mae'n rhaid i'r safleoedd hyn fod ar gael i bobl fyw arnynt drwy gydol y flwyddyn.

6. Mae'r rhan fwyaf o Siewmyn yn aelodau o Urdd Siewmyn Prydain Fawr ac mae'r Urdd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddilyn Cod Ymarfer ar ddefnyddio eu safleoedd. Mae Aelodaeth o'r Urdd yn esemptio Siewmyn rhag gofynion trwyddedu safleoedd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 pan ydynt yn teithio at ddibenion busnes, neu lle maent yn byw mewn gaeafle ar y tir gydag offer am gyfnod rhwng dechrau mis Hydref yn unrhyw flwyddyn a diwedd mis Mawrth y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, dim ond pan ydynt yn teithio at ddiben eu busnes y mae ganddynt hawliau datblygu a ganiateir dan Ran 5 o Atodlen 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Mae'n ofynnol iddynt felly geisio caniatâd cynllunio i sefydlu pob safle arall.

SIPSIWN A THEITHWYR – CYD-DESTUN

7. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau bod yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' (sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau) yn cael ei dilyn. Mae Adran 4 o'r Ddeddf yn sefydlu nifer o nodau llesiant y dylai awdurdodau geisio eu cyrraedd er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor hon. Mae'r nodau hyn yn cynnwys cyflawni 'Cymru o gymunedau cydlynus', sy'n cynnwys Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da, a hefyd 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', sy'n cynnwys cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg.

8. Mae tai yn fater hanfodol sy'n effeithio ar fywydau pobl ledled Cymru, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod dewis eang o lety ar gael i ddiwallu anghenion holl aelodau'r gymuned. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau cyfle cyfartal i bob rhan o'r gymuned ac yn yr achos hwn, dylai fod gan Sipsiwn a Theithwyr yr un mynediad â holl aelodau eraill y gymuned at lety sy'n briodol yn ddiwylliannol.

9. Mae '*Teithio at Ddyfodol Gwell*: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr' ("y Fframwaith") yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys y cymunedau hyn mewn cymdeithas yng Nghymru. Mae'r Fframwaith hefyd yn ceisio

sicrhau bod anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu, eu cynllunio a'u gweithredu mewn ffordd fwy strategol.

10. Mae'r Fframwaith yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Eir i'r afael â'r ymrwymiad hwn trwy drefnu bod cyllid Grant Cyfalaf Safleoedd ar gyfer i ddatblygu safleoedd newydd. Mae newidiadau i ddeddfwriaeth trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 wedi cefnogi'r amcan hwn hefyd.

11. Mae darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn un o nifer o faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy trwy'r broses o baratoi cynllun. Lle mae diffyg safleoedd priodol a darpariaeth annigonol yn bodoli yn ardaloedd awdurdodau lleol, mae hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar fywydau Sipsiwn a Theithwyr. Bydd darparu safleoedd priodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael effaith fuddiol ar allu'r cymunedau i gael gafael ar wasanaethau hanfodol eraill. Gallai darparu safleoedd priodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr gael effaith fuddiol ar y gymuned sefydlog hefyd trwy leihau nifer yr heriau cyfreithiol a'r costau a geir mewn perthynas â herio gwersylloedd diawdurdod.

12. Efallai y bydd rhai Sipsiwn a Theithwyr yn dymuno canfod a phrynu eu safleoedd hwy eu hunain i'w datblygu a'u rheoli. Gallai cynnydd yn nifer y safleoedd preifat cymeradwy ryddhau lleiniau ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac arnynt fwyaf angen darpariaeth gyhoeddus hefyd. Fodd bynnag, bydd yn dal yn ofynnol darparu safleoedd cyhoeddus uwchlaw'r lefelau cyfredol. Mae angen safleoedd o'r fath ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr nad ydynt yn gallu prynu a datblygu eu safleoedd eu hunain, neu y mae'n well ganddynt rentu, ac i ddarparu safleoedd tramwy a mannau aros dros dro lle gall Sipsiwn a Theithwyr aros yn gyfreithlon wrth deithio.

13. Mae darparu rhagor o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, boed yn rhai cyhoeddus neu breifat, yn fater i awdurdodau lleol roi sylw iddo, gan fod yn rhaid iddynt ddod o hyd i atebion lleol i anghenion lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o wybodaeth ategol sy'n cwmpasu grantiau a dogfennau canllaw[1] a fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â darparu llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

[1] Ceir cyfeiriadau at ddogfennau canllaw Llywodraeth Cymru ar Sipsiwn a Theithwyr yn Atodiad A.

DYLETSWYDD I DDARPARU SAFLEOEDD

14. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu'n briodol a bod yr angen dynodedig am leiniau'n cael ei ddiwallu. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol arfer eu pwerau dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, hyd y bo'n angenrheidiol, i sicrhau y darperir safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer yr angen sydd heb ei ddiwallu. Nid yw hyn o anghenraid yn golygu y bydd yn ofynnol darparu safleoedd ychwanegol a berchnogir gan yr awdurdod lleol ond lle mae eu hangen yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu darparu.

15. Er mwyn gallu asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn briodol, mae adran 101 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cyflwyno gofyniad i awdurdodau lleol gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio yn eu hardal neu'n cyrchu yno. Dylai asesiadau o'r fath gael eu cynnal o leiaf bob 5 mlynedd ar ôl mabwysiadu'r asesiad cychwynnol yn 2016. Mae'n rhaid ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr yn eu cylch a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i gael eu cymeradwyo, ynghyd ag adroddiad sy'n nodi sut y cynhaliwyd yr asesiad. Mae canllawiau manwl gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu cyhoeddi ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau hynny wrth baratoi asesiadau o'r fath. Teitl y canllawiau yw 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr - Canllawiau'.

16. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a bod â pholisïau i ddarparu safleoedd Sipsiwn yn eu cynlluniau datblygu.

17. Bydd canfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ystyriaeth allweddol yn y broses o lunio, monitro ac adolygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) awdurdod. Bydd yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLl y byddir yn craffu'n gyhoeddus arni trwy'r broses o baratoi'r cynllun ac mewn archwiliad cyhoeddus. Mater i'r Archwilydd a benodir i archwilio'r CDLl fydd ystyried faint o bwys i'w roi ar unrhyw Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wrthi'n dod i'r amlwg a'i berthnasedd i'r cynllun datblygu sydd ger ei fron.

18. Mae'r cylchlythyr cynllunio hwn yn nodi pwysigrwydd y canlynol:

- mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a'r broses gynllunio trwy Gynlluniau Cynnwys Cymunedau wrth baratoi CDLl a sicrhau bod y cyfathrebu'n uniongyrchol ac yn hygyrch;
- ystyried addasrwydd safleoedd posibl, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau cymunedol addas ar gyfer y rhai sy'n byw yno;
- canllawiau i Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwneud ceisiadau cynllunio;
- sut y gall cydweithio rhwng awdurdodau lleol ar lefel ranbarthol i baratoi Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr fod o fudd i adnabod anghenion llety a darpariaeth addas o ran safleoedd yn ystod y broses gynllunio;
- bod awdurdodau lleol yn adnabod lleoliadau addas mewn cynlluniau datblygu ar gyfer safleoedd parhaol a thramwy sy'n diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr;
- cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf mewn cynlluniau datblygu a fydd yn darparu rhesymeg glir a theg dros benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr;
- ystyried Safleoedd Eithriedig Sipsiwn a Theithwyr penodol;
- cyfrifoldebau awdurdodau lleol dan ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chyfraith achosion.

19. Trwy ddefnyddio'r Cylchlythyr hwn a'r ddwy ddogfen ganllaw gan Lywodraeth Cymru a nodir isod, dylai awdurdodau lleol fod â'r offer i gynnal yr asesiad o anghenion llety ac i ddiwallu'r anghenion dynodedig o ran lleiniau.

- Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr - Canllawiau[2];
- Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru[3].

20. Mae trosolwg o'r broses gynllunio y dylai awdurdodau lleol ei dilyn wrth wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd carafanau Sipsiwn a Theithwyr wedi'i nodi yn Niagram 1.

[2] Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.
[3] Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.

Diagram 1 – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn



DARPARU'R SAIL DYSTIOLAETH

21. Daeth yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd lle mae'r asesiad yn canfod angen, yn ofynion statudol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru *"Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr - Canllawiau"*[4] yn nodi'r broses arfaethedig ar gyfer asesu'r anghenion hyn a sut i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (AALlSaTh).

22. Rhan bwysig o gwblhau Asesiadau o Anghenion Tai Sipsiwn a Theithwyr, a fydd hefyd o gymorth i gynllunio ar gyfer safleoedd, yw cadw cofnodion cywir o safleoedd awdurdodedig a diawdurdod yn ardal yr awdurdod lleol. Dylai awdurdodau lleol ddiweddaru system Cyfrif Carafanau Cymru yn rheolaidd pan fo safleoedd yn digwydd i sicrhau bod data mor gadarn â phosibl.

23. Mae'r Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn darparu'r ffynhonnell wybodaeth allweddol sy'n galluogi awdurdodau lleol i asesu lefel y ddarpariaeth ychwanegol o ran llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n ofynnol wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Gellir cynnal yr asesiadau hyn ar sail ranbarthol hefyd os yw awdurdodau lleol o'r farn ei bod o fudd cydweithio (gweler paragraffau 26 i 27 am ragor o wybodaeth ynghylch gweithio'n rhanbarthol).

24. Mae canlyniadau'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol ganfod nifer yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr y mae angen lleiniau ychwanegol arnynt ar unwaith, o fewn 5 mlynedd, a thros gyfnod y cynllun datblygu. Bydd hyn yn cynnwys:

    - y mathau o lety sy'n ofynnol i ddiwallu'r angen (h.y. safleoedd preswyl neu dramwy, safleoedd penodol ar gyfer Siewmyn Teithiol neu Sipsiwn Romani/Teithwyr Gwyddelig a.y.b.);

    - nifer yr aelwydydd sydd eisoes yn preswylio yn yr Awdurdod Lleol mewn llety anaddas (h.y. gorlawn, yn byw mewn tai confensiynol ac yn casáu brics a morter a.y.b.);

    - lefel yr aelwydydd ar ddatblygiadau diawdurdod neu ar safleoedd awdurdodedig â chaniatâd dros dro, sy'n debygol o gynyddu'r angen heb ei ddiwallu os na roddir caniatâd cynllunio;

    - y gyfradd debygol o ran lefelau net aelwydydd yn ymffurfio (h.y. oedolion ifainc ac arnynt angen eu lleiniau eu hunain, ymfudo ac aelwydydd yn gwasgaru a.y.b.;

[4] Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.

- nifer yr aelwydydd â chyfle realistig i symud i fath o lety o'u dewis hwy, a allai ryddhau rhai lleiniau neu gapasiti o ran brics a morter.

25. Bydd angen i awdurdodau lleol roi sylw i'w dyletswyddau statudol eraill hefyd, gan gynnwys y rhai mewn perthynas â digartrefedd dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac i'w goblygiadau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

GWEITHIO'N RHANBARTHOL

26. Efallai y bydd amgylchiadau lle byddai o fudd i awdurdodau lleol gydweithio er mwyn paratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n cwmpasu rhanbarth.[5] Gallai hyn fod o ganlyniad i symudedd rhwng ardaloedd lle mae awdurdodau lleol cyfagos yn ymwybodol bod eu poblogaethau Sipsiwn a Theithwyr yn symud yn rheolaidd ar draws ffiniau gweinyddol. Gallai Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar sail ranbarthol helpu i roi dealltwriaeth well am batrymau teithio ac anghenion llety ar draws awdurdodau lleol. Gallai hyn arwain at ddull cyffredin a chysondeb ar draws yr ardal o ran adnabod anghenion a dyrannu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr addas mewn cynlluniau datblygu. Yn benodol, gallai asesiad rhanbarthol ddarparu tystiolaeth i gynorthwyo awdurdodau lleol i reoli gwersylloedd diawdurdod, gan y byddant yn gallu dangos eu bod wedi ystyried anghenion llety ar gyfer darpariaeth dramwy ar sail ranbarthol. Byddai gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol yn gallu arwain at arbed costau hefyd a gwella'r data sydd ar gael i asesu anghenion.

27. Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar sail ranbarthol yn darparu'r sail dystiolaeth ar anghenion llety i oleuo'r broses o baratoi cynllun datblygu. Mae'n hanfodol bod y data sy'n deillio o asesiadau a gynhaliwyd ar y cyd yn dal i allu cael ei ddadgyfuno i lefel yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod pob partner yn cadw perchnogaeth ar ei sail dystiolaeth a'i fod yn gallu cynhyrchu gwybodaeth sy'n benodol i'r sefyllfa ym mhob awdurdod lleol unigol. Gan fod yn rhaid i'r data gael ei ddadgyfuno i lefel awdurdod lleol, ni ellir cyfnewid unrhyw safleoedd preswyl parhaol rhwng awdurdodau partner yn ystod y broses o baratoi eu priod gynlluniau datblygu.

CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

Cynnwys y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr

28. Disgwylir y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn mynd ati ar adeg gynnar wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol i drafod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn uniongyrchol gyda Sipsiwn a Theithwyr eu hunain, y cyrff sy'n eu cynrychioli a grwpiau cymorth lleol. Dylid cydnabod nad un

[5] Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.

gymuned yw Sipsiwn a Theithwyr a bod ganddynt werthoedd ac agweddau gwahanol gyda dewisiadau gwahanol o ran safleoedd.

29. Darperir rhestr o gysylltiadau perthnasol yn Atodiad A ond dylai sail wybodaeth leol gael ei datblygu gan yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol, am y cymunedau gwahanol sydd i'w cael yn yr ardal ac sy'n teithio drwyddi. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio canlyniadau ymgynghori rheolaidd a gyflwynir gan swyddogion rheoli safleoedd, swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr a fforymau amlasiantaethol.

30. Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau eu bod yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr ym mhroses y CDLl i sicrhau bod eu barn yn cael ei chymryd i ystyriaeth. Bydd hyn yn helpu i osgoi tensiynau a gwrthdaro a allai godi os ceir datblygiadau diawdurdod. Ceir canllawiau ynghylch gwersylloedd diawdurdod yn y *"Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod"* [6].

31. Mae adran 63 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi eu CDLl yn unol â Chynllun Cynnwys Cymunedau, a fydd yn nodi eu polisi ar ymgysylltu â'u cymuned i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol sefydlu trefniadau fel bod y cyfathrebu gyda Sipsiwn a Theithwyr yn uniongyrchol ac yn hygyrch er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o wrthdaro a thensiwn. Mae'n debygol mai ymgynghori wyneb yn wyneb fydd y ffordd fwyaf effeithiol o gasglu barn y cymunedau hyn.

32. Dylid cydnabod nad yw cymunedau Sipsiwn a Theithwyr wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd canfod pwy allai gynrychioli buddiannau unrhyw gymuned benodol, felly mae'n bwysig datblygu gwybodaeth ac ymddiriedaeth leol. Mae'n hanfodol adnabod a deall anghenion grwpiau sy'n ei chael yn anodd, am nifer o resymau, ymgysylltu â phrosesau cynllunio. Un anhawster o'r fath yw diffyg adnoddau. Fel gyda phob rhan arall o'r gymuned, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried pa ffynonellau ariannu sydd ar gael i grwpiau o'r fath. Un ffynhonnell bosibl ar gyfer cymorth a allai helpu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i gyfranogi'n fwy effeithiol yn y system gynllunio yw Cymorth Cynllunio Cymru (mae'r manylion cyswllt wedi'u cynnwys yn Atodiad D o'r cylchlythyr hwn).

33. Bydd angen i bob Cynllun Cynnwys Cymunedau fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y CDLl gael ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb pob awdurdod cynllunio lleol yw penderfynu a ddylai ymgynghori â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'u cynnwys fod yn rhan o'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a gyflwynir, gan ddibynnu ar y materion sy'n codi yn eu hardal leol. Os yw awdurdod cynllunio lleol yn methu ag adnabod yr angen i ymgysylltu ag unrhyw gymunedau

[6] Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.

Sipsiwn a Theithwyr lle dylai fod wedi, byddai'r awdurdod hwnnw mewn perygl o fethu â chydymffurfio â phrofion gweithdrefnol y mae'n rhaid ymlynu wrthynt er mwyn i CDLl gael ei fabwysiadu.

Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

34. Lle mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn canfod angen heb ei ddiwallu, dylai awdurdodau cynllunio lleol ddyrannu digon o safleoedd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol i sicrhau bod y gofynion am leiniau ar gyfer defnydd preswyl a / neu dramwy yn gallu cael eu hateb. Bydd angen i awdurdodau cynllunio ddangos bod safleoedd yn addas ac y gellir eu cyflawni o fewn y graddfeydd amser a nodwyd. Gyda pholisïau o'r fath ar waith bydd mwy o sicrwydd i bawb pan wneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

35. Wrth adnabod safleoedd dylai'r awdurdod cynllunio lleol weithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Dylai hyn gynnwys annog Sipsiwn a Theithwyr a thirfeddianwyr preifat i gyflwyno safleoedd ymgeisiol fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLl (Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol[7]).

36. Mae materion cynaliadwyedd safleoedd yn bwysig i iechyd a llesiant Sipsiwn a Theithwyr nid dim ond o ran materion amgylcheddol ond hefyd ar gyfer cynnal a chefnogi rhwydweithiau teuluol a chymdeithasol. Gall y materion i'w hystyried gynnwys:

• cyfleoedd ar gyfer twf mewn unedau teuluol;
• hybu cydfodolaeth heddychlon ac integredig rhwng y safle a'r gymuned leol;
• mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg;
• mynediad at gyfleustodau gan gynnwys dŵr a gwasanaethau gwastraff;
• mynediad trwy gerdded a beicio, ar gludiant cyhoeddus ac mewn cerbydau modur preifat;
• mannau chwarae diogel cyfagos neu ar y safle sy'n addas;
• cyfraniad at rwydwaith o safleoedd tramwy sy'n lleihau'r angen i deithio dros bellter hir neu am wersylloedd diawdurdod;
• peidio â lleoli safleoedd ym mharth perygl llifogydd C2 ac ystyried safleoedd i'w lleoli ym mharth perygl llifogydd C1 dim ond yn unol â chanllawiau a geir yn TAN 15[8], o ystyried gwendid arbennig carafanau;
• ystyriaeth i ardaloedd a ddynodwyd fel rhai sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol i fioamrywiaeth a'r dirwedd – gweler paragraffau 58-59 isod.

[7] Gweler paragraff 5.3.4 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol. Rhifyn 2. Awst 2015. Llywodraeth Cymru.
[8] Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd. Gorffennaf 2004. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

37. Wrth ystyried ble i ddarparu ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, dylai awdurdodau cynllunio lleol yn gyntaf ystyried lleoliadau sydd mewn neu ar bwys aneddiadau presennol â mynediad at wasanaethau lleol e.e. lleoliadau addysg, gwasanaethau iechyd a siopau.

38. Mae'n rhaid i'r holl safleoedd a gaiff eu hystyried fel opsiynau wrth ddyrannu safleoedd yn y CDLl gael asesiad o'u heffaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn unol â'r gofynion ar gyfer arfarnu cynaliadwyedd. (Mae adran 3 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn cyflwyno'r broses; mae adran 5 yn egluro'r broses o ran Casglu Tystiolaeth ac Amcanion; ac mae adran 6 yn egluro'r broses o ran Opsiynau Strategol a Strategaeth a Ffafrir). Wrth ystyried safleoedd i'w dyrannu mewn Cynlluniau Datblygu Lleol bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y dogfennau canllaw gan Lywodraeth Cymru hefyd:

- Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru[9];
- Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru - Canllawiau[10]; and
- Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr - Canllawiau.[11]

39. Dylai safleoedd, boed yn rhai cyhoeddus neu breifat, gael eu hadnabod gan ystyried priffyrdd. Wrth bennu eu polisïau, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y potensial ar gyfer sŵn ac aflonyddwch arall o ganlyniad i symudiad cerbydau i'r safle ac oddi arno, cadw cerbydau ar y safle, a gweithgareddau busnes ar y safle. Fodd bynnag, dylai symudiadau a ragamcanir gan gerbydau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gael eu hasesu ar sail unigol ar gyfer pob safle. Ni ddylid gwrthod cynigion pe baent yn achosi symudiadau dyddiol ychwanegol bach iawn yn unig gan gerbydau a/neu pe na bai'r effaith ar is-ffyrdd yn sylweddol.

40. Dylai lleiniau preswyl parhaol fod at ddibenion preswyl yn unig ac ni ddylid rhoi anogaeth ar gyfer gweithgarwch economaidd ar y lleiniau. Gall gweithgareddau economaidd ar leiniau arwain at bryderon ynghylch iechyd a diogelwch, llygredd a'r amgylchedd. Fodd bynnag, efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried darparu man gweithio dynodedig mewn rhan o'r safle sydd ar wahân, lle ceir rheswm amlwg pam fod angen darparu cyfleusterau penodol ar y safle. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd yn ofynnol darparu cyfleusterau ar wahân ar safleoedd siewmyn i storio a chynnal a chadw atyniadau ffair.

41. Efallai y bydd sefyllfaoedd hefyd lle bydd angen i Sipsiwn a Theithwyr storio offer a ddefnyddir yn eu gwaith neu lle bydd arnynt angen tir pori a bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol benderfynu a yw'n bosibl

[9] Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.
[10] Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth.
[11] Cyfeirier at Bennod 5. Ceir rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon yn Atodiad A.

darparu mannau o'r fath a sicrhau eu bod wedi'u gwahanu'n ddigonol oddi wrth ardaloedd preswyl.

42. Lle mae ar Sipsiwn a Theithwyr angen mannau ychwanegol ar gyfer gweithgareddau masnachol dylid eu hannog i fynd ar drywydd cytundebau prydlesu preifat ar gyfer mannau a/neu gyfleusterau cyfagos. Gallai awdurdodau lleol sydd â thir masnachol i'w rentu, er enghraifft garejis, drefnu bod y rhestrau hyn ar gael i breswylwyr ar y safle sy'n dymuno mynd ar drywydd yr opsiwn hwn a dylent weithio mewn modd rhagweithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr i ddod o hyd i gyfleusterau eraill addas.

43. Dan amgylchiadau priodol gall awdurdodau cynllunio lleol osod amodau i gyfyngu ar y gyfran o safle Siewmyn Teithiol y gellir ei orchuddio ag offer ffair, a'r oriau pan ellir profi offer o'r fath, er mwyn diogelu amwynder lleol. Fodd bynnag, dylai awdurdodau cynllunio lleol osgoi gosod amodau sy'n gwahardd defnydd preswyl neu gynnal a chadw offer (neu sy'n cyfyngu'n ormodol ar yr oriau pan ellir cyflawni'r gweithgarwch hwn), gan y byddai amodau o'r fath i bob pwrpas yn dileu mantais unrhyw ganiatâd ar gyfer safle Siewmyn Teithiol parhaol.

44. Lle mae awdurdod lleol yn profi gwersylloedd diawdurdod am fod Sipsiwn a Theithwyr yn 'pasio drwy' ardal a bod gan yr awdurdod gyflenwad annigonol o leiniau tramwy, dylid adnabod mannau aros dros dro iddynt eu meddiannu yn y tymor byr. Mae mannau aros dros dro yn helpu i leihau gwersylloedd diawdurdod gan atal materion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol a chan hwyluso ffordd o fyw draddodiadol Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n rhaid i fannau aros dros dro wneud darpariaeth ar gyfer gwaredu dŵr, cyflenwad dŵr a glanweithdra fel isafswm.[12] Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol yn profi nifer sylweddol o wersylloedd diawdurdod, byddai'n ofynnol darparu safleoedd tramwy cynaliadwy yn hytrach na mannau aros dros dro.

[12] Cyfeirier at Bennod 7 o'r ddogfen Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru; ceir rhagor o wybodaeth amdani yn Atodiad A.

45. Mae nifer o ffyrdd y gall awdurdodau cynllunio lleol adnabod safleoedd penodol a threfnu bod tir ar gael:

    • Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i waredu tir am bris llai na'r gorau lle bydd yn helpu sicrhau bod llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal yn cael ei hybu neu ei wella.[13]

    • Dylai awdurdodau hefyd ystyried gwneud defnydd llawn o unrhyw gofrestrau o dir nas defnyddir o gwbl neu nas defnyddir ddigon sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus i roi cymorth i adnabod lleoliadau addas. Gall tir o eiddo'r awdurdod lleol sy'n wag neu nas defnyddir ddigon fod yn briodol.

    • Dylai awdurdodau ystyried hefyd a allai fod yn briodol arfer eu pwerau prynu gorfodol i gaffael safle priodol.

    • Gall cydweithredu rhwng awdurdodau lleol cyfagos ddarparu mwy o hyblygrwydd i adnabod safleoedd tramwy.

46. Dylai awdurdod cynllunio lleol sydd, mewn achos eithriadol, yn methu â diwallu'r holl anghenion yn y dyfodol a ganfuwyd mewn asesiad trwy leoliadau safleoedd penodol gynnwys yn y CDLl esboniad rhesymedig pam na fu hynny'n bosibl a hwnnw'n cael ei ategu gan dystiolaeth berthnasol. Mae'n rhaid iddo egluro pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio i sicrhau darpariaeth ddigonol a nodi'r mesurau manwl y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn cael ei gwneud yn ystod cyfnod y cynllun.

Polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf

47. Bydd polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf yn ofynnol yn y CDLl, pa un a oes unrhyw angen dynodedig presennol yn yr ardal ai peidio, er mwyn diwallu anghenion yn y dyfodol neu anghenion annisgwyl. Mae'n rhaid i bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf fod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol o ran darparu safleoedd. Ni ddylai polisïau cynllunio sy'n diystyru'r posibilrwydd o ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr neu'n gosod cyfyngiadau gormodol ar eu datblygu gael eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

48. Mae Atodiad B yn cynnwys canllawiau ynghylch meini prawf sy'n arfer da. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ymyrryd yn y broses gwneud cynllun lle mae'n ystyried bod y cyfyngiadau a gynigir gan awdurdodau cynllunio lleol yn rhy fawr neu nad oes cyfiawnhad digonol drostynt.

[13] Fel a nodir yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 41/03, "Deddf Llywodraeth Leol 1972: Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003, Cael Gwared ar Dir gan Awdurdodau am Bris Llai na'r Gorau".

Safleoedd Eithriedig Sipsiwn a Theithwyr

49. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn wynebu anawsterau o ran sicrhau cyflenwad digonol o dir ar gyfer eu hanghenion. Lle mae angen lleol am lety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei adnabod, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried a yw'n briodol cynnwys "Polisi ar Safleoedd Eithriedig Sipsiwn a Theithwyr" yn y CDLl perthnasol.

50. Dylai polisïau ar safleoedd eithriedig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr weithredu yn unol â'r gofynion a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Wrth gymhwyso'r polisi ar Safleoedd Eithriedig Sipsiwn a Theithwyr, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn arbennig anghenion aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sydd naill ai'n drigolion presennol neu sydd â chysylltiad teuluol neu gysylltiad cyflogaeth presennol.

51. Gall safleoedd ar gyrion ardaloedd adeiledig neu leoliadau yng nghefn gwlad fod yn addas fel safleoedd eithriedig. Wrth asesu addasrwydd safleoedd o'r fath, dylai awdurdodau lleol fod yn realistig ynghylch argaeledd, neu argaeledd tebygol, dewisiadau eraill yn lle'r car ar gyfer cael mynediad at wasanaethau lleol. Ni fyddai mynd ati mewn modd rhy anhyblyg i gymhwyso polisïau cenedlaethol neu bolisïau yn y CDLl sy'n ceisio lleihau teithiau mewn ceir yn briodol gan y gellid eu defnyddio i bob pwrpas er mwyn atal cynigion ar gyfer unrhyw Safle Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliad cefn gwlad. Dylid ystyried safleoedd yn eu cyd-destun ac mewn perthynas â'r seilwaith lleol, a maint a thrwch y boblogaeth i sicrhau eu bod yn gymesur â chymunedau sefydlog lleol.

52. Mewn rhai achosion, sydd o bosibl yn ymwneud â thir a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd), tir anniben neu dir diffaith, gellir ystyried bod datblygu safle Sipsiwn a Theithwyr a gynlluniwyd yn dda (e.e. un sy'n ymgorffori tirlunio meddal) yn ddatblygiad sy'n gwella'r amgylchedd ac yn cynyddu ei natur agored.

Monitro polisïau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y CDLl

53. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol baratoi adroddiad monitro blynyddol (AMB). Yr AMB yw'r prif fecanwaith ar gyfer adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLl ac adnabod unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol. Un o brif ddibenion yr AMB yw ystyried a yw amcanion a nodir yn y CDLl yn cael eu cyrraedd. Lle nad yw polisi a nodir yn y CDLl yn cael ei weithredu, mae'n rhaid i'r adroddiad nodi'r polisi hwnnw. Hefyd, mae Rheoliad 37 (3) o Reoliadau Cynllun Datblygu Lleol (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad yn cynnwys datganiad o'r canlynol:

    • y rhesymau pam nad yw'r polisi hwnnw'n cael ei weithredu;
    • y camau (os o gwbl) y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu;

• a yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r CDLl i ddisodli neu ddiwygio'r polisi hwnnw.

54. Ceir canllawiau pellach yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol.[14]

PROSIECTAU DATBLYGU MAWR

55. Gall prosiect datblygu neu ailddatblygu mawr olygu ei bod yn ofynnol adleoli safle Sipsiwn neu Deithwyr yn barhaol neu dros dro. Wrth benderfynu ynghylch ceisiadau ar gyfer datblygiadau o'r fath, gall fod yn briodol ychwanegu amodau neu sicrhau rhwymedigaethau cynllunio sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr adnabod a darparu safle arall, ar yr amod bod y safle gwreiddiol yn un awdurdodedig. Dylai'r awdurdod cynllunio lleol weithio gyda'r datblygwr a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yr effeithir arni i adnabod safle (neu safleoedd) a fyddai'n addas ar gyfer adleoli'r gymuned.

56. Wrth gynnig adleoli bydd angen rhoi sylw i anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a manteision posibl adleoli'r safle i'r ardal leol a'r ardal ehangach. Bydd hefyd yn angenrheidiol sicrhau nad yw unrhyw adleoli'n effeithio ar hawliau cyfreithiol neu ddynol preswylwyr y safle presennol.

ARDALOEDD DYNODEDIG

57. Caiff y polisi cynllunio cenedlaethol ar Leiniau Gwyrdd a Lletemau Gwyrdd ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru[15]. Ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygu amhriodol o fewn Lleiniau Glas neu letemau glas. Mae safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd yn y Llain Las neu'r lletemau glas yn debygol o fod yn ddatblygu amhriodol. Mae polisi cynllunio cenedlaethol ar Leiniau Glas neu letemau glas yr un mor berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ag i geisiadau ar gyfer defnyddiau preswyl eraill. Dylid archwilio dewisiadau eraill cyn bod lleoliadau ar Leiniau Glas neu letemau glas yn cael eu hystyried. Gellir osgoi pwysau i ddatblygu safleoedd ar Leiniau Glas neu letemau glas fel arfer os yw'r awdurdod lleol yn dyrannu digon o safleoedd mewn rhannau eraill o'i ardal, i ddiwallu'r angen dynodedig.

58. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys canllawiau polisi cenedlaethol ynghylch datblygu mewn ardaloedd â dynodiadau a gydnabyddir yn genedlaethol – o ran dynodiadau tirwedd statudol[16], rheoli adeiladu[17] a dynodiadau cadwraeth natur statudol[18]. Mae'n rhaid cydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig â dynodiad. Mae'r

[14] Cyfeirier at Adran 9
[15] Cyfeirier at Adran 4.8 o Bolisi Cynllunio Cymru
[16] Cyfeirier at Baragraff 5.3.3 o Bolisi Cynllunio Cymru
[17] Cyfeirier at Baragraff 5.3.6 o Bolisi Cynllunio Cymru
[18] Cyfeirier at Baragraff 5.3.8 o Bolisi Cynllunio Cymru

canllawiau hynny'n berthnasol i geisiadau cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad preswyl o fewn yr ardaloedd hynny, gan gynnwys ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

59. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnig arweiniad pellach ynghylch dynodiadau tirwedd leol a dynodiadau cadwraeth natur leol[19]. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio dynodiadau o'r fath, ynddynt eu hunain, i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

CEISIADAU CYNLLUNIO

60. Mae adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (yn achos Cynlluniau Datblygu Lleol) yn darparu y dylai penderfyniadau ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall. Bydd ystyriaethau eraill ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fel arfer yn cynnwys yr effaith ar yr ardal o amgylch, lefel bresennol y ddarpariaeth a'r angen am safleoedd yn yr ardal, argaeledd (neu ddiffyg argaeledd) llety arall i'r ymgeiswyr a'u hamgylchiadau personol penodol.

61. Er mwyn rhoi anogaeth i ddarparu safleoedd preifat, dylai awdurdodau cynllunio lleol gynnig cyngor a chymorth ymarferol gyda gweithdrefnau cynllunio i Sipsiwn a Theithwyr sy'n dymuno caffael eu tir eu hunain i'w ddatblygu. Dylai Sipsiwn a Theithwyr wastad ymgynghori ag awdurdodau cynllunio lleol ynghylch materion cynllunio cyn prynu tir y maent yn bwriadu sefydlu unrhyw safle carafanau arno, y bydd bron wastad yn ofynnol cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer (ceir rhagor o arweiniad ynghylch y ddwy agwedd hon yn Atodiadau C a D).

62. Mae trafodaethau cyn ymgeisio yn arbennig o bwysig i osgoi camddealltwriaeth a phroblemau dilynol mewn perthynas â chaniatâd cynllunio. Bydd ymgysylltu adeiladol a chadarnhaol ar bob ochr yn hybu ymddiriedaeth a gall helpu i osgoi achosion o dorri rheolaeth gynllunio. Y nod y dylid anelu ato bob amser yw helpu Sipsiwn a Theithwyr i ddarparu ar eu cyfer hwy eu hunain, a chaniatáu iddynt sicrhau'r mathau o safleoedd y mae eu hangen arnynt, ond mewn lleoliadau sy'n briodol yn nhermau polisi cynllunio. Bydd hyn o gymorth i osgoi achosion o dorri rheolaeth gynllunio, ac yn ei gwneud yn bosibl cymryd camau gorfodi cadarn yn erbyn achosion o'r fath. Yn arbennig, dylai cwestiynau ynghylch mynediad o'r ffordd, argaeledd gwasanaethau, gwrthdaro posibl ag ymgymerwyr statudol neu fuddiannau amaethyddol, ac unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol gael eu datrys ar y cyfle cynharaf. Yn unol â chanllawiau yn TAN 15[20], dylai awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch perygl llifogydd.

[19] Cyfeirier at Baragraff 5.3.2 a 5.3.11 o Bolisi Cynllunio Cymru
[20] Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd. Gorffennaf 2004. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

63. Dylai unrhyw ffeithiau a allai fod yn berthnasol gael ei cadarnhau a'u hystyried cyn penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Dylai Sipsiwn a Theithwyr gydweithredu trwy ymateb i geisiadau am wybodaeth sy'n berthnasol i'w ceisiadau.

64. Ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol wrthod ceisiadau am nad oes cysylltiad lleol gan yr ymgeisydd. Ond mae ganddynt hawl i wrthod ceisiadau mewn lleoliadau nad ydynt yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio, yn enwedig lle mae'r awdurdod wedi cydymffurfio â'r canllawiau hyn ac wedi mynd ati'n briodol i sicrhau bod anghenion a adnabuwyd gan asesiadau o anghenion llety'n cael eu diwallu.

65. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried sut y gallent oresgyn gwrthwynebiadau i geisiadau cynllunio penodol gan ddefnyddio amodau cynllunio neu rwymedigaethau cynllunio, gan gynnwys:

    a.) Cyfyngu ar y rhannau o safle y gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw weithrediadau busnes, er mwyn lleihau i'r eithaf yr effaith weledol a chyfyngu ar effaith sŵn
    b.) Nodi nifer y diwrnodau y gall y safle gynnwys mwy na nifer y carafanau a ganiateir (sy'n caniatáu ymwelwyr ac yn galluogi pobl i fod yn bresennol mewn digwyddiadau teuluol neu gymunedol)
    c.) Cyfyngu ar uchafswm y diwrnodau y gellir caniatáu i garafanau aros ar safle tramwy (dim llai na 4 wythnos na mwy na 3 mis).

    Mae Atodiad B yn rhoi manylion ffynonellau gwybodaeth eraill o ran defnyddio amodau mewn caniatadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

66. Wrth ystyried a ddylid gorfodi yn erbyn defnyddio tir fel safle Sipsiwn a Theithwyr ynteu gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd o'r fath, dylai awdurdodau cynllunio lleol asesu pa effaith, os o gwbl, y byddai diffyg darpariaeth ar safle presennol yn ei chael ar y gallu i gymryd, ac amddiffyn, camau o'r fath yn llwyddiannus mewn unrhyw apêl ddilynol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y ddyletswydd yn Adran 103 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 – sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod arfer ei bwerau i ddiwallu unrhyw anghenion i ddarparu safle a adnabyddir trwy ei Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr – wrth benderfynu ar ddull gweithredu priodol.

GORFODI

67. Mae'n bwysig bod polisïau a rheolaethau cynllunio'n cael eu parchu gan bob rhan o'r gymuned a bod camau gorfodi effeithiol yn cael eu cymryd gan yr awdurdod cynllunio lleol lle mae hynny'n fuddiol. Mae Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990 yn darparu llawer o offer i'w galluogi i wneud hynny, gan gynnwys:

- Hysbysiad gorfodi (a.172);
- Hysbysiad torri amod (a.187A);

- Hysbysiad atal (a.183);
- Hysbysiad atal dros dro (a.171E);
- Gwaharddebau (a.187B).

68. Wrth ystyried camau gorfodi, dylai awdurdodau cynllunio lleol gael eu harwain gan y cyngor yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu[21]. Ceir cyngor pellach ar y pwerau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol a'u defnydd yn:

- Gorfodi Rheolaeth Gynllunio: Darpariaeth Ddeddfwriaethol a Gofynion Gweithdrefnol[22];
- Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod.[23]

Hysbysiadau Atal Dros Dro

69. Mae Adran 52 o Ran 4 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (a gychwynnwyd yng Nghymru) yn mewnosod adrannau 171E i 171H o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â hysbysiadau atal dros dro. Mae Adran 171E yn amodi y gall awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad atal dros dro lle maent yn meddwl bod achos o dorri rheolaeth gynllunio wedi digwydd, a lle maent yn ystyried y dylid atal y gweithgaredd neu unrhyw ran ohono ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys safleoedd carafanau diawdurdod.

70. Gallai'r gallu i gyflwyno hysbysiad atal dros dro fod yn erfyn defnyddiol lle mae awdurdod cynllunio lleol yn dymuno cymryd camau ar unwaith i atal tir rhag cael ei ddatblygu ymhellach fel safle Sipsiwn a Theithwyr i atal rhag ei ddwysáu ymhellach am gyfnod o 28 diwrnod. Yn ystod yr amser hwn gall yr awdurdod benderfynu pa gam gorfodi, gan ddefnyddio'r offer eraill sydd ar gael iddo dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sydd fwyaf priodol i ymdrin â'r achos o dorri rheolaeth gynllunio.

71. Nid oes hawl i apelio yn erbyn hysbysiad atal dros dro ac felly cyn cymryd camau o'r fath dylai'r awdurdod lleol ystyried ei ddyletswyddau dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, fel gyda phob cam gorfodi, a Deddf Tai (Cymru) 2014. Mewn achosion lle mae gan awdurdod lleol angen heb ei ddiwallu a adnabuwyd am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yna dylai hyn fod yn ystyriaeth berthnasol yn ei benderfyniad i gyflwyno hysbysiad atal dros dro yn erbyn safle diawdurdod.

[21] http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?lang=cy
[22] Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/97
[23] Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyddiedig 2013.

APELIADAU

72. Bydd achlysuron pan fydd awdurdodau cynllunio lleol yn gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Bydd Arolygydd Cynllunio yn penderfynu ynghylch unrhyw apêl ddilynol yn unol â'r cynllun datblygu a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill – y dylai'r rhan fwyaf os nad y cyfan ohonynt fod wedi cael sylw'n barod yn y cam ymgeisio. Bydd y rhain yn cynnwys yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sydd ar gael, darpariaeth bresennol ac arfaethedig o ran safleoedd a'r angen am safleoedd yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol, cywirdeb y data a ddefnyddiwyd i asesu anghenion, y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o anghenion a pha mor gyfoes ydyw, gwybodaeth am argaeledd lleiniau ar safleoedd cyhoeddus a phreifat, amgylchiadau personol ac opsiynau eraill o ran llety.

HAWLIAU DYNOL A CHYFLE CYFARTAL

73. Dylai darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith gartref Prydain gael eu hystyried fel rhan annatod o brosesau penderfynu awdurdodau lleol – gan gynnwys eu dull o ateb y cwestiwn beth sy'n ystyriaethau perthnasol mewn achosion cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried canlyniadau gwrthod neu roi caniatâd cynllunio, neu gymryd camau gorfodi, i hawliau'r unigolion dan sylw, yn Sipsiwn a Theithwyr a thrigolion lleol, a phan a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur dan yr amgylchiadau. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch cymhwyso darpariaethau'r Confensiwn mewn achosion penodol, dylid ceisio cyngor cyfreithiol. Nid yw'r rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus i weithredu'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn yn rhoi hawl i Sipsiwn a Theithwyr sefydlu safleoedd yn groes i reolaeth gynllunio.

74. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu hiliol gan awdurdodau cynllunio lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau cynllunio. Hefyd, mae dyletswydd gyffredinol ar y mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, dan Ddeddf 2010 i fynd ati'n weithredol i geisio dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau hiliol da ym mhopeth a wnânt. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn y CDLl yn arbennig o bwysig yn hyn o beth.

75. Pan fo polisïau'n cael eu newid neu rai newydd yn cael eu cyflwyno, dylai awdurdodau asesu ac ymgynghori ynghylch eu heffaith tebygol, a lle adnabyddir effaith anffafriol na ellir ei chyfiawnhau, dylid gwneud newidiadau. Mae'n arbennig o bwysig bod awdurdodau'n ystyried yr holl grwpiau hil a wasanaethir gan yr awdurdod er mwyn asesu effaith eu polisïau ar y grwpiau hyn. Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig wedi cael eu cydnabod gan y Llysoedd fel grwpiau ethnig ar wahân, y mae Deddf 2010 yn berthnasol iddynt. Dan y ddyletswydd gyffredinol a grybwyllwyd uchod, mae gofyniad bod awdurdodau lleol yn ceisio hybu cysylltiadau hiliol da rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r

gymuned sefydlog. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun cynllunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

MONITRO CEISIADAU CYNLLUNIO

76. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fonitro penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a'u dadansoddi'n feirniadol. Dylai awdurdodau asesu canlyniadau dadansoddiadau o'r fath i oleuo'r broses o ddatblygu polisïau. Yn y cyswllt hwn, cynghorir awdurdodau cynllunio lleol i gynnal rhestr barhaus o'r holl geisiadau cynllunio y maent yn eu cael i ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Gallent ddefnyddio'r rhestr hon i fonitro canlyniadau ceisiadau cynllunio o'u cymharu â'r angen am lety a adnabuwyd yn eu Hasesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Byddai casglu data o'r fath yn gallu darparu sail dystiolaeth ddefnyddiol hefyd ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wrth baratoi, monitro ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

ATODIAD A

Cyfeiriadau a Rhestr o Sefydliadau sydd o ddiddordeb i Sipsiwn a Theithwyr

CYFEIRIADAU

Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr - Canllawiau, Llywodraeth Cymru, Mai 2015
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150223-gypsy-traveller-accommodation-assessmentsv2-cy.pdf

Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2013
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/131220-guidance-managing-unauthorised-camping-2013-cy.pdf

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (Chwefror 2007) Cyfres Nodyn Arfer Da 4:
Planning for Gypsies and Travellers.
http://rtpi.org.uk/knowledge/publications/planning-for-gypsies-and-travellers/

Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – Canllawiau, Llywodraeth Cymru, Mai 2015
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150528-designing-gypsy-and-traveller-sites-cy.pdf

Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru - Canllawiau, Llywodraeth Cymru, Mai 2015
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150528-managing-gypsy-and-traveller-sites-cy.pdf

Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr, Tachwedd 2008, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynllunio Eich Cymuned: Canllaw i Gynlluniau Datblygu Lleol (Llyfryn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2006)

SEFYDLIADAU

Llywodraeth Cymru

Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

FairerFuturesMailbox@wales.gsi.gov.uk

Sefydliadau yng Nghymru:

Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Canolfan Gymunedol Trowbridge
Caernarvon Way
Trowbridge
Caerdydd
CF3 1RU
029 2021 4411
info@gtwales.org.uk mailto:admincgtp@btconnect.com

Travelling Ahead
8 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
029 2039 6838
travellingahead@savethechildren.org.uk
http://www.travellingahead.org.uk

Prosiect Trwy Undod i'r Gymuned
Ysgol Gynradd Gymunedol Cil-maen
Penfro
Sir Benfro
SA71 4LS
unity@pembrokeshire.gov.uk

Romani Cultural and Arts Company
Llys y Deml
13a Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA
isaacblake@romaniarts.co.uk
http://www.romaniarts.co.uk

Prosiect Pontydd
Merthyr Tudful
01685 353959
Lb2@smt.org.uk

Urdd Siewmyn Prydain Fawr *(Siewmyn Teithiol yn unig)*
De Cymru –
7 Gerddi Rhigos
Caerdydd
CF24 4LS
07949 289 075
Sgwales1@gmail.com

Gogledd Cymru –
11 St. Mary's Place
Bury
Lancashire
BL9 0DZ
01617 629 502
leesashowmensguild@yahoo.com
http://www.showmensguild.co.uk

The Travellers School Charity *(Teithwyr Newydd yn unig)*
Tŷ Loveden House
26 Heol y Bont
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1QB
07786 466 107
info@travellersschool.org.uk
http://www.travellersschool.org.uk

Cymorth Cynllunio Cymru
Llawr Cyntaf
174 Heol yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 3NB
02920 625000
http://www.planningaidwales.org.uk

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
Bloc 1
Cainc D
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Santes Agnes
Caerdydd
CF14 4YY
02920 447710
Wales@equalityhumanrights.com

Sefydliadau cymorth cymunedol eraill yn y DU:

The Traveller Movement
The Resource Centre
356 Holloway Road
London
N7 6PA
020 7607 2002
info@travellermovement.org.uk
http://www.travellermovement.org.uk

Friends, Families and Travellers
Community Base
113 Queens Road
Brighton
BN1 3XG
01273 234777
Fft@gypsy-traveller.org
www.gypsy-traveller.org

Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn
d/o Derbyshire Gypsy Liaison Group
1-3 Ladygrove Mill
Lady Grove Road
Two Dales
Matlock
DE4 2FG
01629 732744
natglg@outlook.com
http://www.nationalgypsytravellerfederation.org

Y Cyngor Sipsiwn (ar gyfer Addysg, Diwylliant, Lles a Hawliau Sifil)
8 Hall Road
Aveley
Romford
Essex
RM15 4HD
07963 565 952
info@gypsy-association.com
http://www.gypsy-association.com

ATODIAD B

Arfer Da – Meini Prawf

1. Mae gan Sipsiwn a Theithwyr yr un hawliau a chyfrifoldebau o fewn y system gynllunio â phob dinesydd arall. Dylai polisïau a meini prawf mewn cynlluniau ar gyfer sefydlu safleoedd carafanau Sipsiwn a Theithwyr fod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol, a chael eu hysgrifennu mewn modd cadarnhaol sy'n cynnig rhywfaint o sicrwydd y bydd bodloni'r meini prawf (nid pob un ohonynt o anghenraid) yn arwain at roi caniatâd cynllunio.

2. Dylid osgoi polisïau amwys mewn cynlluniau sy'n datgan y 'gellir rhoi' caniatâd neu y bydd yr awdurdod yn 'ystyried' ffactorau gan eu bod yn cynyddu ansicrwydd. Gallai geiriad amgen gynnwys 'bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi "ar yr amod bod y meini prawf/gofynion canlynol [yn amlwg] wedi'u bodloni…..".

3. Ni ddylai'r rhestr o feini prawf a fabwysiedir gan awdurdod cynllunio lleol fod yn ormodol oherwydd po fwyaf o feini prawf sydd i'w cael, a pho fwyaf cyfyngol ydynt, po fwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd awdurdodau'n gwrthod caniatâd cynllunio. Dylai fod dull mwy cadarnhaol o wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau priodol – yn enwedig gan yr awdurdodau cynllunio lleol hynny y mae eu polisïau presennol wedi methu â diwallu anghenion presennol. Byddir yn craffu'n fanwl ar y broses a ddefnyddir i fabwysiadu meini prawf mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

4. Gyda phob math o safle, mae'n rhaid ystyried mynediad ar gyfer cerbydau o'r briffordd gyhoeddus, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer parcio, troi a gwasanaethau ar y safle, a diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer pobl sy'n byw ar y safle ac ymwelwyr. Gall tirlunio a phlannu â coed a phlanhigion priodol helpu safleoedd i ymdoddi i'w hamgylchoedd, rhoi strwythur a phreifatrwydd, a chynnal amwynder gweledol. Mae amgáu safle â gormod o dirlunio caled, a waliau neu ffensys uchel nid yn unig yn gallu rhoi'r argraff o ynysu'r safle a'i feddianwyr yn fwriadol rhag gweddill y gymuned ond gallai hefyd fod yn ymwthiol yn weledol – dylid osgoi'r ddwy sefyllfa.

5. Dylai fod lle ar safleoedd newydd i 20 llain neu lai, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol a lle bu ymgynghori ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid. Gall amgylchiadau eithriadol gynnwys penderfyniad i gadw cymuned fawr gyda'i gilydd os yw aelwydydd yn cael eu hadleoli o safle presennol sy'n anghynaliadwy neu lle ceir amgylchiadau lleol, gan gynnwys diffyg tir addas neu lefelau uchel o angen am leiniau sydd heb ei ddiwallu (fel a ddiffiniwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr) .

6. Gall estyniadau i safleoedd preswyl presennol achosi i'r Awdurdod Lleol fynd y tu hwnt i 20 llain ar safle penodol. Gall hyn fod yn briodol lle mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio cadw teuluoedd gyda'i gilydd ac wedi ystyried barn preswylwyr presennol a'r gymuned o amgylch.

7. Dylid ystyried safleoedd yng nghyd-destun ac mewn perthynas â'r seilwaith lleol, a maint a thrwch y boblogaeth leol i sicrhau eu bod yn gymesur â chymunedau sefydlog lleol.

Meini prawf sy'n annerbyniol

8. Nid yw wedi bod yn anghyffredin i feini prawf fod mor gyfyngol a helaeth fel ei bod yn amhosibl neu bron yn amhosibl yn ymarferol i gais gydymffurfio â phob un ohonynt. Cymerwyd y meini prawf canlynol o gynlluniau awdurdodau lleol ac maent yn enghreifftiau o feini prawf yr ystyrir eu bod yn **annerbyniol** ar y cyfan**:**

   'Bydd pob uned o lety ar y safle wedi cael ei roi ar y safle gan y meddiannydd/meddianwyr am y tro a fydd yn symud y llety oddi ar y safle pan fydd(ant) yn rhoi'r gorau i'w ddefnyddio at ddibenion preswyl'.

   Nid yw'r maen prawf hwn yn darparu ar gyfer y ffordd nomadig a thraddodiadol o fyw lle mae gan lawer o Sipsiwn a Theithwyr un garafán i fyw ynddi, ac un fwy symudol y maent yn ei defnyddio wrth deithio.

   Nid yw gofyniad bod y llety'n cael ei roi ar y safle gan y meddiannydd yn caniatáu darparu ar gyfer aelodau eraill o'r teulu nad ydynt hwy eu hunain, am resymau sy'n ymwneud ag afiechyd o bosibl, yn gorfforol yn gallu symud eu llety eu hunain ar y safle.

   'Ni ddylai fod mwy na [x] o garafanau' (ar unrhyw safle)

   Mae pennu uchafswm fel polisi hollgynhwysfawr trwy bolisi mewn cynllun datblygu'n fympwyol.

   Dylai unrhyw uchafswm carafanau y gellir eu gosod ar unrhyw safle penodol gael ei nodi trwy amod cynllunio ar ôl ystyried amgylchiadau'r cais cynllunio unigol a fyddai'n cynnwys maint penodol y safle, maint a thrwch y boblogaeth o amgylch a gofynion yr ymgeisydd.

"Ni fydd ceisiadau gan Sipsiwn a Theithwyr sydd heb gysylltiad lleol yn cael eu caniatáu fel arfer"

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn nomadig fel arfer ac felly ni fydd ganddynt gysylltiadau lleol bob amser. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol benderfynu ynghylch ceisiadau datblygu gan unrhyw un sy'n eu cyflwyno.

Wrth i'r busnesau y mae Sipsiwn a Theithwyr yn draddodiadol wedi ymwneud â hwy ddirywio, mae'r crefftau a'r busnesau newydd y maent yn ymgymryd â hwy yn aml yn golygu bod angen iddynt symud i leoliadau newydd a chael gwaith cyflogedig sefydlog.

Nid yw'n briodol ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fod â chysylltiad lleol i gael caniatâd cynllunio.

"Nid yw'r safle'n effeithio ar unrhyw ardal â diddordeb naturiol/bywyd gwyllt"

Bydd pob math o ddatblygiad o ran ei union natur yn cael rhywfaint o effaith ar fywyd gwyllt. Dylai'r meini prawf gael eu diffinio'n fwy tynn, ond rhesymol.

"Ni ddylai'r safle dresmasu ar gefn gwlad"

Mae hyn yn afrealistig. Mae polisïau o'r fath wedi cael eu defnyddio i atal rhag darparu safleoedd.

"Dim ond lle mae'n amlwg bod angen sydd heb ei ddiwallu wedi'i adnabod yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr y bydd safleoedd yn cael eu caniatáu"

Byddai hyn yn annerbyniol gan y byddai'n gweithredu yn erbyn rhyddid symudiad i Sipsiwn a Theithwyr sy'n dymuno datblygu eu safleoedd eu hunain. Ni fyddai cyfyngiadau o'r fath yn cael eu gosod ar bobl nad ydynt yn Sipsiwn a Theithwyr sy'n symud i ardal newydd ac yn ceisio adeiladu tŷ.

Hefyd, gweler y canlynol sy'n darparu gwybodaeth am amodau a awgrymir mewn caniatadau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr:

- Cylchlythyr 016/2014, Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu, Llywodraeth Cymru
- Dolen i amodau enghreifftiol a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio: http://gov.wales/topics/planning/appeals/model-conditions/?lang=cy

ATODIAD C

Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio gan Sipsiwn a Theithwyr

1. Mae gan Sipsiwn a Theithwyr yr un hawliau a chyfrifoldebau o fewn y system gynllunio â'r holl ymgeiswyr eraill am ganiatâd cynllunio. Wrth ymdrin â cheisiadau ac ymholiadau gan Sipsiwn a Theithwyr dylai swyddogion cynllunio a staff adrannau cynllunio weithredu mewn modd proffesiynol a thrin ymholiadau gan Sipsiwn a Theithwyr yn deg. Mae Cymorth Cynllunio Cymru (ceir manylion cyswllt yn Atodiad A) yn ffynhonnell cyngor a gwybodaeth annibynnol am ddim y bydd Sipsiwn a Theithwyr o bosibl am ei defnyddio.

2. Er mwyn osgoi datblygu diawdurdod, mae'n arbennig o bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn sefydlu lefel o ymddiriedaeth a chydweithrediad gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol. Mae safbwyntiau sydd wedi hen galedu ar y ddwy ochr yn debygol o arwain at densiynau, gwrthdaro ac oedi.

3. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried dynodi person penodol i ymdrin â'r holl ymholiadau/ceisiadau o'r fath neu fod â pherson penodol y gall yr ymgeiswyr gynnal cyswllt ag ef neu â hi. Dylid rhoi hyfforddiant penodol i staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau gan Sipsiwn a Theithwyr.

4. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol roi cyngor cyn ymgeisio eglur, ac efallai y byddant am ystyried llunio taflenni sy'n egluro'r system gynllunio, ac ystyried defnyddio cyfryngau eraill – megis cyfathrebu trwy gyfrwng fideo/dvd a sain – lle byddai hyn yn diwallu anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn well. Mewn unrhyw gyfarfod cyn ymgeisio dylai awdurdodau cynllunio lleol roi arwydd anffurfiol o'r siawns o gael caniatâd, amlygu unrhyw anawsterau posibl a dynodi a ellir goresgyn y rhain ac egluro'r broses gynllunio wrth ymgeiswyr sy'n anghyfarwydd â hi.

5. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol wneud Sipsiwn a Theithwyr yn ymwybodol o safonau y gallant eu disgwyl gan yr awdurdod, safonau y disgwylir iddynt hwy eu cyrraedd a'u hawliau i gwyno, gan gynnwys wrth swyddog monitro'r awdurdod a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

6. Efallai y bydd angen i adrannau cynllunio ymgynghori ag adrannau ac asiantaethau eraill sydd â buddiant, yn enwedig adrannau tai, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac awdurdodau iechyd a phriffyrdd. Ffynonellau pwysig eraill ar gyfer cyngor yw Swyddogion Cyswllt Sipsiwn (neu swyddogion cyfatebol) sydd fel arfer, ond nid wastad wedi'i lleoli mewn awdurdodau lleol lle trefnir bod Swyddogion o'r fath ar gael.

ATODIAD D

Canllawiau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwneud ceisiadau cynllunio

Cyflwyniad

1. Mae gan aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yr un hawliau a chyfrifoldebau o fewn y system gynllunio ag aelodau o gymunedau eraill. Mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio fel arfer ar gyfer unrhyw newidiadau i ddefnydd tir. Fel gyda cheisiadau ar gyfer datblygu a gyflwynir gan unrhyw un yr unig adegau pan na fyddai caniatâd yn ofynnol yw:

    i. os yw'r tir eisoes wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer math arbennig o ddefnydd tir; neu

    ii. os yw'r defnydd tir wedi hen ymsefydlu dros gyfnod o amser heb i'r awdurdod cynllunio lleol fod wedi cymryd camau gorfodi dilys ym maes cynllunio. Y cyfnod o amser yma yw 4 blynedd ar gyfer adeilad neu waith ffisegol arall tebyg nad yw'n gyfystyr â newid defnydd tir, neu 10 mlynedd lle bu'r datblygiad yn gyfystyr â newid defnydd tir. Mae gosod carafanau ar dir yn ddefnydd tir yn nhermau cynllunio.

Y weithdrefn cyn ymgeisio

2. Wrth chwilio am safle dylai Sipsiwn a Theithwyr ganfod

    i. a oes unrhyw safleoedd presennol yn yr ardal leol (â chaniatâd cynllunio) sydd ar gael i'w rhentu neu'u prynu;

    ii. os nad oes, a yw'r awdurdod cynllunio'n gallu adnabod unrhyw safleoedd a allai fod neu ddod i fod ar gael.

3. Os yw canlyniad yr ymholiadau a nodir uchod yn negyddol ac os ydych â'ch bryd ar ddatblygu safle newydd, mae'n debygol y bydd angen i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio. Pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried eich cais bydd yn edrych yn gyntaf i weld beth mae ei gynllun datblygu'n ei ddweud am y safle yr ydych wedi'i ddewis.

4. O ganlyniad**, cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio dylech gymryd y camau canlynol:-**

   i. cysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol[24] er mwyn adnabod y polisïau yn y cynllun datblygu sy'n berthnasol i ddefnydd fel safle carafanau Sipsiwn a Theithwyr a chadarnhau a yw'r safle y mae gennych chi ddiddordeb ynddo mewn Llain Glas, lletem las neu ardal gwarchodaeth arbennig arall. Mae datblygu mewn ardaloedd o'r fath yn ddarostyngedig i reolaeth fwy llym ac mae'r tebygolrwydd o gael caniatâd cynllunio fel arfer yn llawer is na phe na bai'r safle mewn ardal sydd â'r warchodaeth arbennig hon.

   ii. Paratoi gwybodaeth sy'n dynodi

   - yr ardal lle'r ydych yn chwilio am safle
   - a oes unrhyw resymau penodol dros ddethol y safle sydd gennych e.e. amgylchiadau teuluol, gwaith neu ofynion eraill
   - a oes safleoedd eraill ar gael ac, os felly, pam yr ydych yn ystyried eu bod yn anaddas
   - nifer y carafanau a gynigir ar gyfer y safle.

   iii. paratoi asesiad o addasrwydd y safle a'r defnydd y bwriedir ei wneud ohono mewn perthynas â:

   - mynediad ar gyfer cerbydau a cherddwyr
   - agosrwydd at y prif rwydwaith ffyrdd
   - cyflwr a lefelau'r tir
   - pa mor agos ydyw at ysgolion a chyfleusterau eraill
   - bodolaeth nodweddion tirlunio neu a ellid sgrinio'r safle â gwaith plannu ychwanegol
   - cydnawsedd â defnyddiau cyfagos.

[24] Adran Gynllunio'r awdurdod lleol fydd hwn oni bai bod y tir o fewn ardal Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro neu Eryri – os yw'r tir o fewn Parc Cenedlaethol, dylech gysylltu â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

iv. Dylech hefyd ystyried cynnal chwiliad o'r cofrestrau pridiant tir lleol (a ddelir gan yr awdurdod lleol) i ganfod a oes unrhyw gyfyngiadau (megis gwaharddebau) ar ddefnyddio'r tir.

5. Pan fyddwch wedi cwblhau hyn i gyd dylech geisio cyfarfod gyda swyddogion yr awdurdod cynllunio lleol i drafod eich cynigion a'r wybodaeth a ddarparwyd. Byddant hwy'n rhoi eu barn broffesiynol hwy ynghylch yr achos a baratowyd ac efallai y byddant yn gallu awgrymu ffyrdd y gellir ei wneud yn fwy derbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol. Fodd bynnag, ni fyddant yn gallu rhoi unrhyw warantau nac addewid y bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi. Bydd y penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud yn y rhan fwyaf o achosion gan y Pwyllgor Cynllunio.

Gwneud y cais cynllunio

6. Dylech wneud eich cais cynllunio a disgwyl am ganiatâd *cyn* ichi fynd ar y safle. Mae mynd ar safle heb ganiatâd cynllunio'n debygol o fod yn gyfystyr â thorri rheolaeth gynllunio a gall arwain at gamau gorfodi.

7. Wrth wneud eich cais am safle carafanau Sipsiwn a Theithwyr dylech ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl yn y dechrau un gan gynnwys cynllun y safle, tirlunio, mynediad a nifer y carafanau.

Beth sy'n digwydd nesaf?

8. Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ynghylch ceisiadau o fewn wyth wythnos i'w cyflwyno fel arfer. Os gwrthodir caniatâd cynllunio ichi, neu os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn methu â phenderfynu ynghylch y cais o fewn y cyfnod o 8 wythnos (neu gyfnod hwy a gytunwyd rhyngoch chi hwy), gallwch apelio wrth Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw apêl o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwrthodwyd caniatâd cynllunio neu'r dyddiad pan ddylid bod wedi penderfynu ynghylch y cais (diwedd y cyfnod o 8 wythnos neu unrhyw gyfnod hwy a gytunwyd gennych).

   Mae manylion sut i gyflwyno apêl a sut y mae'r broses apeliadau'n gweithio ar gael ar yr adran Apeliadau Cynllunio ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/topics/planning/appeals/?lang=cy, neu gan:

   Arolygiaeth Gynllunio Cymru
   Adeiladau'r Goron
   Parc Cathays
   Caerdydd
   CF10 3NQ

   Ffôn: 029 2082 3866
   Ffacs: 029 2082 5150
   E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

9. Dylai Sipsiwn a Theithwyr fod yn ymwybodol o **Cymorth Cynllunio Cymru**, gwasanaeth gwirfoddol a gyllidir â grant gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol, di-duedd rhad-ac-am-ddim mewn perthynas â materion cynllunio tref i grwpiau cymunedol ac unigolion nad ydynt yn gallu fforddio talu i ymgynghorydd cynllunio:

   Cymorth Cynllunio Cymru
   Llawr Cyntaf
   174 Heol yr Eglwys Newydd
   Y Waun
   Caerdydd
   CF14 3NB

   Ffôn: 029 2062 5000
   E-bost: Cwblhewch ffurflen ymholi ar-lein yn y cyfeiriad gwefan a restrir isod.
   Gwefan: www.planningaidwales.org.uk